# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**21 Ffordd Garnedd**

**Y Felinheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# 21 Ffordd Garnedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited. |
| Lleoedd cofrestredig | 2 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17/02/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais oedd hwn i weld a oedd darparwr y gwasanaeth wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol i fodloni'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag adolygu cynlluniau personol.

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau personol i roi mwy o fanylion i'r staff gofal, fodd bynnag, nid yw rhai meysydd o'r cynlluniau yn rhoi digon o wybodaeth i'r staff gofal am y modd y gellir cefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau. Mae'r rheolwr wedi adolygu'r cynlluniau bob tri mis; fodd bynnag, nid yw wedi asesu pa mor effeithiol yw'r cynlluniau wrth helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i nodi eu diddordebau fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn dangos bod hyn wedi'i wneud yn amserol.

Mae'r gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu wedi gwella ansawdd yr amgylchedd lle mae'r bobl yn byw. Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau ar welliannau a wneir yn y gwasanaeth a chânt ddewis sut i addurno eu hystafelloedd gwely.

Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth systemau digonol i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir i'r bobl. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi mynd i'r afael â meysydd sy'n parhau i fethu bodloni'r rheoliadau. Nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth wedi gweithredu pan effeithiwyd yn negyddol ar lesiant y bobl. Oherwydd y methiannau hyn, mae AGC yn cymryd camau drwy'r Llwybr Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallant siarad â'r rheolwr os bydd ganddynt unrhyw bryderon ond nodwyd y byddent yn hoffi gweld y rheolwr yn amlach. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn anhapus â rhai agweddau ar y gofal a ddarperir iddynt, ond bod y rheolwr wedi dweud wrthynt nad oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf. Ni cheir system gwaith allweddol, ac ni chynhaliwyd cyfarfodydd tŷ yn rheolaidd, felly prin yw'r cyfleoedd i'r bobl drafod eu safbwyntiau ar y gofal a gânt gyda'r rheolwr a'r staff gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi i dreulio amser gyda'u perthnasau ac i fynd ar wyliau. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ynghylch gweithgareddau, ond nid yw'r cynlluniau yn nodi'r pethau y mae gan y bobl ddiddordeb yn eu gwneud. Pan gaiff y cynlluniau eu hadolygu, ni roddir gwybodaeth ddigonol am b'un a ydynt wedi'u cyflawni neu i ba raddau y maent wedi'u cyflawni. Mae cynlluniau gweithgareddau ar waith; fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'r gweithgareddau y byddai'r bobl yn hoffi eu gwneud ac nid ydynt yn dangos p'un a gynhaliwyd y gweithgaredd.

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal yn ymateb i anghenion iechyd y bobl sy'n dod i'r amlwg mewn ffordd amserol. Nid yw'r cofnodion yn dangos tystiolaeth bod cyngor wedi'i geisio cyn gynted ag y bo modd. Mae'r bobl yn dewis beth maent am ei fwyta. Fodd bynnag, nid oes asesiad ar ba mor iach yw eu deiet, na gwybodaeth am sut y gellid gwella'r bwydlenni.

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch ac maent yn gwybod beth yw'r broses i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am lesiant y bobl.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Gall rhai aelodau o'r staff gofal ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, a gellir cynnig rhai dogfennau yn Gymraeg os bydd angen. Nid oes angen i unrhyw un o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd gael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cartref yn addas i ddiwallu anghenion y bobl ac mae wedi cael ei ailaddurno ers yr arolygiad diwethaf. Mae'n cynnig amgylchedd cartrefol i'r bobl fyw ynddo. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain ac defnyddio'r ardaloedd cymunedol yn rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Yn yr arolygiad diwethaf, cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i ddarparwr y gwasanaeth mewn perthynas â'r wybodaeth a gofnodir pan gaiff cynlluniau personol eu hadolygu. Ers yr arolygiad diwethaf, mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn y cynlluniau personol. Fodd bynnag, mae'r hyn a gofnodir yn annigonol o hyd pan gaiff y cynlluniau eu hadolygu. Rhoddir canllawiau ysgrifenedig i'r staff ar sut i gefnogi pobl, ond ni chynhelir asesiad o bu'n a yw'r strategaethau'n gweithio ai peidio. Mae'r rheolwr wedi gwneud rhai sylwadau wrth adolygu'r cynlluniau, ond mae rhai o'r nodau yn rhy eang, ac ni chaiff cynnydd ei werthuso. Cynhelir asesiadau risg i gofnodi risgiau a nodwyd i lesiant a diogelwch y bobl, a'r modd y cânt eu rheoli, ond nid ydynt wedi cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

Un maes i'w wella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf oedd bod angen cwblhau asesiad darparwr a'i adolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn ofynnol er mwyn nodi'n glir y modd y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl, a dylid ei adolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried anghenion newidiol, a'i ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod asesiad darparwr wedi cael ei gwblhau a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i ddarparwr y gwasanaeth ynghylch y mater hwn.

Caiff meddyginiaeth a ragnodir ei chadw'n ddiogel a defnyddir siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR). Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaeth; fodd bynnag, gwelsom fod angen mwy o wyliadwriaeth gan yr holl staff wrth gofnodi'r feddyginiaeth a roddir, a'r ymateb gan y tîm rheoli pan na fydd y staff gofal wedi llofnodi'r siartiau MAR. Nodwyd un maes i'w wella ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn.

Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r rheolwr a rhai aelodau o'r staff gofal. Gwelsom fod y rheolwr yn dangos llawer o barch wrth siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Fodd bynnag, nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr holl staff gofal yn gwrando ar y bobl ac yn cyfathrebu â nhw mewn modd cwrtais a pharchus. Cadarnhawyd hyn pan oeddem yn arsylwi'r staff gofal yn cyfathrebu â'r bobl, a'r cofnodion a welsom.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gallant ddewis sut i addurno'r cartref. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus am eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd dymunol. Mae'r cartref yn un o dri chartref a ddarperir gan ddarparwr y gwasanaeth, ac maent wedi'u lleoli'n agos iawn at ei gilydd mewn ystâd breswyl. Fflat llawr cyntaf yw'r cartref, gydag ardal fyw, cegin a bwyta cynllun agored ac ystafell ymolchi. Mae ystafell wely yr un i ddau berson sy'n byw yn y gwasanaeth, ond ni cheir ystafell wely ar wahân ar gyfer y staff na gofod i'r bobl gwrdd ag ymwelwyr mewn man preifat ar wahân i'w hystafelloedd gwely. Mae'r rheolwr hefyd yn rheoli'r ddau gartref arall, ac mae ei swyddfa wedi'i lleol yn un o'r cartrefi eraill sydd nepell i ffwrdd. Gwnaed gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol ac mae yn golygu bod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn fwy cyfforddus. Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd maes i'w wella mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion ynghylch lleithder a llwydni yn y fflat, ac mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu hailaddurno. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried dymuniadau a dewisiadau'r bobl yn y ffordd y caiff eu hystafelloedd eu dodrefnu a'u haddurno. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn diwallu eu hanghenion a'u ffyrdd o fyw ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd teclynnau wedi cael eu trwsio na'u disodli mewn modd amserol. Yn yr arolygiad hwn, dywedodd y staff gofal wrthym nad oedd hyn wedi bod yn broblem a bod y cyfarpar yn gweithio'n dda. Mae pob ardal o'r cartref yn lân ac yn daclus ac yn cynnwys eitemau sy'n adlewyrchu diddordebau'r bobl ac yn helpu i greu teimlad cartrefol.

Mae prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae darparwr y gwasanaeth yn trefnu bod gwiriadau amgylcheddol yn cael eu cynnal a chaiff adroddiad ei lunio. Caiff y systemau gwresogi a thrydanol eu gwirio bob blwyddyn, ac mae asesiad risg tân wedi'i gynnal. Mae'r staff gofal yn cynnal gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol ar yr amgylchedd a chaiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal. Ers yr arolygiad diwethaf, mae darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod car ychwanegol ar gael at ddefnydd y tri chartref, fel y gall y bobl fynd allan yn amlach.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi'r ffordd y bydd y cartref yn diwallu anghenion y bobl yn natganiad o ddiben y cartref. Mae darparwr y gwasanaeth wrthi'n recriwtio staff gofal newydd gan nad oes digon o aelodau parhaol o staff gofal yn y tîm. Cynhelir gwiriadau addas cyn i'r staff gofal gael eu cyflogi yn y cartref. Caiff y bobl eu cefnogi yn unol â'r trefniadau comisiynu; ac roedd y lefelau staffio yn adlewyrchu hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd un person wrthym ei fod yn gyfarwydd â'r staff gofal parhaol a'r staff gofal banc a gyflogir gan ddarparwr y gwasanaeth. Mae darparwr y gwasanaeth yn delio â'r prinder staff drwy ddefnyddio staff gofal asiantaeth. Er bod darparwr y gwasanaeth yn ceisio defnyddio'r un staff gofal asiantaeth, ac mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref restr o ba aelodau o staff gofal fydd yn gweithio gyda nhw am yr wythnos, dywedodd y rheolwr wrthym nad yw bob amser yn bosibl gwybod pa aelod o staff gofal asiantaeth fydd ar ddyletswydd yn y cartref nes iddynt gyrraedd ar gyfer eu shifft. Gwnaethom archwilio cofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom mai hyfforddiant ar-lein y mae'r staff yn ei gael gan amlaf. Ni cheir llawer o dystiolaeth bod darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn deall yr hyfforddiant na ph'un a yw'n llywio ac yn gwella eu hymarfer. Felly, ni all y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff gofal yn cael yr hyfforddiant priodol i ddeall ymddygiadau ac yn mabwysiadu strategaethau i gefnogi'r bobl i gyflawni llesiant a chanlyniadau cadarnhaol. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i ddarparwr y gwasanaeth ynghylch y cymorth a'r datblygiad a roddir i staff gofal.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cartref yn ddigon cadarn. Mae rheolwr y cartref wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n goruchwylio'r gwaith o redeg cartrefi darparwr y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae hefyd wedi'i gontractio i weithio 16 awr yr wythnos ar waith shifft. Nid oedd yn amlwg bod y staff gofal a oedd yn darparu gofal a chymorth i'r unigolion wedi cael eu cefnogi'n briodol o ran goruchwyliaeth nac wrth gadw golwg ar eu hymarfer. Ni welsom dystiolaeth bod y staff gofal wedi cael goruchwyliaeth i'w helpu i fyfyrio ar eu hymarfer, na chyfarfodydd tîm a gynhelir mor aml â'r hyn sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Nid yw'r rheolwr yn cynnal dadansoddiad effeithiol o ddigwyddiadau i nodi patrymau a thueddiadau. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro ac adolygu safon y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth. Er hyn, gwelsom ddiffygion yn y broses o lywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth. Cymeradwywyd unigolyn cyfrifol newydd gan AGC ym mis Tachwedd 2022. Cyhoeddwyd maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf ynghylch y gofyniad i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf. Yr unigolyn cyfrifol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth ers 02/09/2022 ac felly nid yw'r maes i'w wella wedi cael ei gyflawni. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch y mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. | Newydd |
| 36 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol i'w alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. | Newydd |
| 16 | Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio neu eu datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y maent wedi gallu cyflawni eu canlyniadau personol. Dylid cynnal adolygiadau mewn ymgynghoriad â'r unigolion. | |
| 18 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad y darparwr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gwblhau asesiad darparwr pan fydd newid sylweddol yn anghenion person a phan na fydd y cynllun personol yn cefnogi'r person i gyflawni ei ganlyniadau personol. | Heb Gyflawni |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref yn ddigon aml. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel. | Newydd |
| 59 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ardal wedi bod yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod cofnod o bob ymwelydd â'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 44 | Mae darparwr y gwasanaeth wedi methu mynd i'r afael â materion cynnal a chadw mewn modd amserol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn ddi-oed. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi llunio adroddiad unigol i ddarparwr y gwasanaeth sy'n asesu'r safon gofal a | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref bob chwe mis o leiaf a llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/06/2023